# Y FELINHELI vs LLANRWST UNITED

Rhaglen y gêm / Matchday programme

Ardal North West
Sadwrn / Saturday
Cae Seilo, Y Felinheli

**22.10.22**
**2.30pm**

Noddwr y gêm / Match sponsor:

LOCK STOCK SELF STORAGE




NW ARDAL
LOCK STOCK SELF STORAGE




NW ARDAL

LOCK STOCK
SELF STORAGE

# ANRHYDEDDAU'R CLWB
# CLUB HONORS

## Enillwyr / Winners

| | |
|---|---|
| Welsh Alliance League Division 2 | 2019-20 |
| Gwynedd League | 1983-84, 2000-01, 2015-16 |
| Caernarfon & District League | 1981-82, 1982-83, 2013-14 |
| NWCFA Challenge Cup | 1987-88 |
| NWCFA Junior Cup | 2012-13, 2013-14 |
| Welsh Alliance League Barritt Cup | 1999-2000 |
| Welsh Alliance League Alves Cup | 1991-92 |
| Welsh Alliance League Lock Stock Cup | 2018-19 |
| Gwynedd Cup | 1984-85, 2015-16 |
| Caernarfon & District League Alves Cup | 1981-82 |
| Caernarfon & District League Mooring Cup | 1981-82 |
| Caernarfon & District League Will Evans Cup | 1982-83 |
| Caernarfon & District League Llun Mewn Ffram Cup | 2013-14 |

## Ail / Runner-up

| | |
|---|---|
| Welsh Alliance League | 1991-92 |
| Caernarfon & District League | 2011-12, 2012-13 |
| NWCFA Challenge Cup | 1988-89, 1989-90 |
| NWCFA Junior Cup | 1985-86, 1994-95 |
| Welsh Alliance League Barritt Cup | 1981-82 |
| Welsh Alliance League Alves Cup | 1983-84, 2000-01 |
| Caernarfon & District League Alves Cup | 1978-79 |

Delwedd
websites that work
gwefannau sy'n gweithio
delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 727 227

swyddle
recriwtio • hysbysebu

Shed.
GOFOD CREADIGOL

SFP
SNOWDONIA FIRE PROTECTION

# Y GWRTHWYNEBWYR
# MEET THE OPPOSITION

## LLANRWST UNITED

### Rheolwr / Manager

Barry Owen

### Cae / Ground

Gwydir Park

### Canlyniadau Diweddar / Latest Results

Llanrwst United 0-0 Bodedern Athletic
Denbigh Town 6-1 Llanrwst United

## CLUB HISTORY

Football has been played in Llanrwst for well over 100 years. Llanrwst United was formed for the 1983/1984 season, by the amalgamation of the 2 football teams who were playing in the town - Llanrwst Athletic and Llanrwst Town.

The Town of Llanrwst operates several football teams, ranging from the under 8's up to senior level. Working together we see a lot of players making their way up the ranks to the senior teams as well as moving on & up to higher leagues.

After completing many ground and facility improvements, the Rwsters obtained a tier three licence in 2020 and finished in fourth place in the inaugural season of the Ardal Northwest League.

Barry Owen took over from Leighton Griffiths as manager at the end of the 21/22 season and has put a strong management team together for the 22/23 season.





# FLINT MOUNTAIN 3
# Y FELINHELI 2

## 15.10.22 - Ardal North West, Essity Stadium

**Cyrhaeddodd Felin Stadiwm Essity yn y glaw dydd Sadwrn y pymthegfed o Hydref yn barod am gem gynghrair yn erbyn Flint Mountain.**

Roedd y garfan yn fach unwaith eto oherwydd anafiadau, priodasau a gwyliau, ond digon o safon i gystadlu. Dechreuodd Flint yn dda yn pasio'r bel o gwmpas a gwneud i Felin weithio. Roedd rhif 11 Flint yn pigo safleoedd peryg i fyny a'n gwneud hi'n anodd i Felin wybod pwy oedd i fod i'w farcio. Ar y cyfan roedd siap Felin yn gadarn drwy gydol yr hanner cyntaf. Daeth Jack Cain yn agos ac roedd croesiadau da yn dod mewn i'r cwrt cosbi ond neb yno i rhoi'r bel yng nghefn y rhwyd.

Daeth y gôl gyntaf hanner ffordd drwy'r hanner gyntaf. Rhif 11 Flint yn cael gormod o le tu allan i'r cwrt cosbi ac yn taro i gornel y rhwyd. Gôl dda, dim oedd Guto'n gallu gwneud yn y gôl.

Hanner amser 1-0 i Flint.

Daeth Felin allan yn sydyn ar gyfer yr ail hanner, a ni odd y tîm gora. Roedd yr ymosodwyr yn pwyso'n gyson a daeth y gôl diolch i waith caled Ryan Cain yn




pasio'r bêl i'w frawd Jack am tap in. 1-1 a Felin on top. Daeth Adam ymlaen yn lle Gruff John yn dilyn anaf ac Aled Em yn lle Iwan Edwards.

Gyda deng munud i fynd dyma Adam yn rhoi pel letrawst i mewn i'r cwrt cosbi, yr amddiffynwyr yn methu hi a'r bel yn cyrraedd Ryan Cain. Gwaith da ganddo unwaith eto'n pasio'r bel ar hyd y gôl. Roedd Aled Em, Iw Bonc a Jack Cain yno'n disgwyl. Aled Em oedd yno i basio'r bel heibio'r amddifynwr oedd yn sefyll ar y lein. 2-1 gyda deng munud i fynd a Felin yn hyderus.

Roedd Felin wedi dal tan y munudau olaf, ond blerwch gan y tim oddi cartref ac un bel o cefn amddiffyn Flint tuag at yr ymosodwr yn ddigon. Yntau'n taro ergyd caled heibio Guto. 2-2, siom enfawr i Felin. Ond gwaethygu wnaeth pethau. Munud yn ddiweddarach a Flint yn cael cic cornel. Y gic ddim y gorau ond yn mynd heibio pawb yn y cwrt cosbi heblaw am rhif 11, i sgorio'i ail o'r diwrnod, a trydydd Flint gan dorri calonau Felin.

Y sgôr ar ddiwedd y gêm - 3-2 i Flint.

Colli cyfle ar ôl bod ar y blaen mor hwyr yn y gêm. Lot o wersi i ddysgu, ond perfformiad calonogol yn erbyn tim cryf.

## Adroddiad gêm

## ALED EMYR










Lluniau / Pictures: Phil Stead

# TIMAU / LINEUPS

**Flint Mountain FC – CPD Y Felinheli**
15. Oct 2022. 14:30

**3 : 2**

TIMELINE | LINEUP | INFO | TABLE | H2H

| No. | Flint Mountain FC | CPD Y Felinheli | No. |
|---|---|---|---|
| 1 | JAMIE KING G ↓ | HUGHES G. G | 1 |
| 2 | IEUAN HEWITT C 🟨 | JAPHETH C. | 2 |
| 3 | DOM MCHUGH | CAIN R. | 3 |
| 4 | GARY ROBERTS ⚽ | GRIFFITH A. C | 4 |
| 5 | ROWAN BROOKS | EMYR I. | 5 |
| 6 | MARK FOSTER ↓ | JONES D. | 6 |
| 8 | COREY SMART | DAVIES T. | 7 |
| 9 | BEN BRIERLY ↓ | JOHN G. ↓ | 8 |
| 10 | SAM MOLYNEUX | OWEN I. | 9 |
| 11 | KYLE SMYTH ⚽2 | EDWARDS I. ↓ | 10 |
| 14 | ALEX GOUNDREY | CAIN J. ⚽ | 11 |

**Substitutions**

| No. | Flint Mountain FC | CPD Y Felinheli | No. |
|---|---|---|---|
| 7 | CHRIS LI ↑ | DAFYDD T. | 12 |
| 12 | JACK DELGADO | EMYR A. ↑ ⚽ | 14 |
| 15 | TOM LYNCH | HUGHES A. ↑ | 15 |
| 16 | ANDY BROWN ↑ | GRIFFITHS D. | 16 |
| 18 | PETE MARTIN ↑ | PARRY R. | 17 |

**Team officials**

| Flint Mountain FC | CPD Y Felinheli |
|---|---|
| JONNY HILL – Assistant Manager | OWEN I. – Assistant Manager |
| JOE COSSINS – Coach | JONES M. – Coach |
| ROB MARSHALL – First Aider | JONES M. – First Aider |
| ADEN SHANNON – Team Manager | DAVIES E. – Team Manager |

Londis
Y Felinheli

LA MARINA
KITCHEN - BAR - CEGIN

HUWS GRAY

MORFA LODGE
HOLIDAY PARK




# Y FELINHELI 1
# CONWY BOROUGH 4

## 08.10.22 – Welsh Cup, Cae Seilo

**Hon oedd pedwerydd gêm Felin yng Nghwpan Cymru eleni, a Conwy Borough oedd yr ymwelwyr i Seilo yn yr Ail Rownd. Mae nhw yn chwarae yn "Tier 2", yn y "JD Cymru North". Toedda nhw heb gael tymor rhy dda hyd yn hyn, felly roedd hon yn gyfle am "giant killing" efallai. Ac i weld be ydi'r gwahaniaeth mewn safon rhwng "haen" 2 a "haen" 3. Yn sicr, roedd pawb yn Felin yn disgwyl gêm galed.**

Dyma ysgrifennwyd am gêm Y Glannau yn y rownd ddiwethaf: "Yn yr hanner cyntaf, ddim ond un tim oedd ynddi hi, gyda Felin yn methu cyfle ar ol cyfle,....". Roedd yr un peth yn wir am y gêm hon, heblaw am y ffaith fod Conwy wedi mynd 0-2 ar y blaen. Dwy gôl eithaf bler. Y gyntaf ar ol 3 munud allan o ddim byd, efallai yn dangos pa mor sharp oedd ymosodwyr adran 2 y pyramid Cymraeg. Yr ail gôl ar ol 22 munud yn fler a safbwynt amddiffyn Felin.

Cafodd Felin lot o feddiant, ac yn ei ddefnyddio yn dda iawn, heblaw am fedru rhoi y bel yn y rhwyd, ynte. Bu rhaid i Gavin fynd off ar ol hanner awr efo hen anaf yn dod yn ol i'w boeni, Jack yn dod yn ei le. Saith munud ar ol dod ar y cae, dyna lle oedd Jack i benio croesiad Iw Bonc yn hyderus i'r rhwyd, a dod a Felin yn ol i'r gêm, 1-2. Gôl dda iawn, a haeddiannol. Bu Ryan ei frawd yn anlwcus ddwywaith cyn y chwiban hanner amser. A rhaid dweud fod Conwy wedi dod yn agos i sgorio hefyd.

Ddigon tebyg oedd hi yn yr ail hanner, gyda Felin yn trio yn galed i ddod yn ol yn gyfartal. Ond gyda Conwy yn mynd yn fwy ac yn fwy budur a sinigaidd, gwnaeth y reff benderfyniad od iawn, yn rhoi cic rhydd i'r ymwelwyr y tu allan i bocs Felin. Od iawn gan mai boi Conwy wnaeth globrio Ryan, ond rhoddodd y drosedd yn erbyn Ryan, ac yn rhoi cerdyn melyn iddo....! Rhaid cyfaddef



ei bod yn ffri cic dda iawn gan Craig Whelan, yn crymannu heibio y wal ac i'r rhwyd.

Conwy i fyny 1-3, ac ar ol y gôl yma, gyda'u cynffonnau i fyny, edrychai Conwy yn gymharol cyffyrddus o'r diwedd. Daeth ein hen gyfaill, Cory, ar y cae fel sub yn syth ar ol y gôl, ac o fewn 8 munud, roedd o wedi sgorio yn erbyn clwb ei bentref. Fo oedd y cyntaf i ymateb ar ol i Guto wneud sêf dda., 1-4.

Roedd Conwy erbyn hyn yn trio cau y gêm, gan ddefnyddio tactegau ddigon amheus. Ac o'r diwedd dechraeodd y reff ymateb i'r taclegau, gan roi ddim llai nag wyth cerdyn melyn, pump ohonynt ar ol y bedwerydd gôl. Ac er i Felin drio yn galed hyd at y diwedd, toedd hi ddim i fod. Cafwyd torf dda o ryw 180, sydd yn help garw i dalu'r biliau.

O edrych ar ganlyniadau eraill y dydd yn y gwpan, roedd clybiau y JD North wedi curo clybiau lefel ni ym mhob un gêm. Efallai fod y naid mewn safon rhwng y ddau "tier" yn un sylweddol. Roedd Felin wedi chwarae yn dda ac efallai ddim yn haeddu colli o'r sgor yma. Mae hi wedi bod yn rediad da yn y gwpan eleni, ac ennill rhywfaint yn y gynghrair sydd angen rwan.

## Adroddiad gêm

## GWIL JOHN



# TIMAU / LINEUPS








Lluniau / Pictures: Phil Stead

**CPD Y Felinheli – Conwy Borough FC**
8. Oct 2022. 14:30

**1 : 4**

TIMELINE | **LINEUP** | INFO | H2H

| No. | CPD Y Felinheli | Conwy Borough FC | No. |
|---|---|---|---|
| 1 | HUGHES G. G | FARRAR B. G | 1 |
| 2 | JAPHETH C. | JAMES LANSDOWNE | 2 |
| 3 | CAIN R. | JONES C. | 3 |
| 4 | GRIFFITH A. C | JONES R. | 5 |
| 5 | JONES L. | CRAVEN L. | 6 |
| 6 | JONES D. | EVANS C. | 7 |
| 7 | DAVIES T. | MCCAFFERY S. | 8 |
| 8 | LLOYD-JONES G. | JOHN LITTLEMORE | 9 |
| 9 | OWEN I. A | PARRY-JONES J. | 17 |
| 10 | EDWARDS I. | WHELAN C. | 18 |
| 11 | PRITCHARD O. | HUGHES I. C | 20 |

**Substitutions**

| No. | CPD Y Felinheli | Conwy Borough FC | No. |
|---|---|---|---|
| 12 | CAIN J. | ASHLEY W. | 4 |
| 14 | EMYR A. | BREESE M. | 16 |
| 15 | HUGHES A. | WILLIAMS C. | 21 |
| 16 | EMYR I. | | |
| 17 | DAFYDD T. | | |

**Team officials**

| CPD Y Felinheli | Conwy Borough FC |
|---|---|
| OWEN I. Assistant Manager | DUFF J. Assistant Manager |
| JONES M. Coach | WEAVER A. First Aider |
| JONES M. First Aider | WEAVER A. First Team Manager |
| DAVIES E. Team Manager | |

DOCSHED
RHAGLENNI FFEITHIOL

BEVERLEY JONES
HAIRDRESSING

ANDREW COOK
BARBERING

Kitchen Medic
07733 303353

HCS
PLUMBING & HEATING SUPPLIES LTD

SPECIALIST SUPPLIERS OF
- BOILERS
- RADIATORS
- BATHROOMS
- PLUMBING EQUIPMENTS

Unit 32, Gaerwen Industrial Estate, Gaerwen LL60 6HR Tel: 01248 422244 Fax: 01248 422255 www.heatingcontrolsandspares.co.uk



# CERRIGYDRUDION 3
# Y FELINHELI 4

## 01.10.22 – FAW Trophy, Ysgol Gynradd Cerrigydrudion

**Neis cael mynd i rywle gwahanol a chwarae rhywun newydd. Trip i lawr yr A5 i Gerrigydrudion gyda sgwad chydig yn llai nag arfer, gyda nifer o chwaraewyr ddim ar gael. Mae Cerrig yn chwarae yn "tier 4" yn y gynghrair ochor Gogledd Ddwyrain (yr un lîg a Llannefydd, Prestatyn Sports, Penmaenmawr, Blaenau, etc) ar ol cael dyrchafiad tymor ddiwethaf.**

Ac yn y gwynt cryf, roedd yr hogiau lleol yn barod am dano ni, yn brwydro am bopeth. Er fod llawer ar goll, roedd dal tîm reit dda gan Felin ar y cae, ac yn amlwg yn dipyn gwell tîm na Cerrig yn y dechrau. A toedd hi ddim yn syndod pan sgoriodd Iw Bonc ar ol 7 munud i roi Felin ar y blaen. Ond llai na 10 munud wedyn roedd hi yn 1-1, gyda amddiffyn Felin yn gwneud cagymeriad i'w gadael i fewn.

Ar ol i'n hen ffrind Rhodri ap Dafydd roi cerdyn melyn i Llion am rywbeth oddiar y bel (mae'n siwr fod o yn ei haeddu...?), jibio rhoi penalty i ni wnaeth o ar ol 34 munud, pan aeth Tom ar ryn anhygoel, cael ei ffowlio, cario ymlaen, a chael ei ffowlio eto yn y bocs. Rhoddodd ein mêt gic cosb am y ffowl gyntaf, y tu allan i'r bocs. Bron i Iw sgorio o'r gic, yn crafu y postyn. Bu rhaid i Guto wneud arbediad da jest cyn y chwiban, ond 1-1 oedd hi hanner amser.



Dechraeodd yr ail hanner ddigon tebyg, gyda Felin yn trio chwarae peldroed, a'r tim cartref yn fflio i fewn i bopeth. Ond yn fuan ar ol i Iw Bonc gael cyfle euraidd, cymerodd Osh y gic gornel a ddilynodd, a roedd Pob yn y lle iawn i'w throi hi i fewn i'r rhwyd, 1-2 i Felin.

Gyda Cerrig yn brwydro yn galed a'r cae ychydig yn fach, efallai fod Felin yn stryglo i gael unrhyw rhythm yn eu chware. Roedd hi erbyn hyn wedi mynd yn gêm fler iawn, yn siwtio'r tîm cartref i'r dim. Daethant yn gyfartal ar ol 57 munud, gyda Steffan ein syb ar y lein wedi codi ei fflag am offseid. Cofiwch pwy oedd y reff, ein hên gyfaill ynte, 2-2.

Parhau yn flêr a ddi-gyfeiriad wnaeth yr ornest cyn i bethau ffrwydro yn y ddeg munud olaf. Peniodd rhif 5 y tim cartref o gic gosb i roi Cerrig ar y blaen, yn ysgogi dathliadau gwyllt. Ond munud wedyn, roedd Connor wedi dod a Felin yn gyfartal unwaith eto, a dau funud o'r diwedd, roedd Tom Bach wedi ennill y gêm i Felin, yn blastio y bel i'r rhwyd yn dilyn gwaith da gan y super-sub, Al Em.

Roedd hon yn gêm anodd, ddim byd yn llai na beth oedd pawb wedi ei ddisgwyl, i fod yn deg. Ond roedd blas da ar y beint yn y Llew Gwyn wedyn, ac edrychwn ymlaen i'r rownd nesaf.

Ffaith i chi: mae Felin wedi ennill pump allan o bump o'i gemau cwpan hyd yn hyn y tymor yma. Conwy fydd y nesaf yn R3 Cwpan Cymru, sgwni eith hi yn chwech allan o chwech?

## Adroddiad gêm

## GWIL JOHN




# TIMAU / LINEUPS





Lluniau / Pictures: Phil Stead



CPD Cerrigydrudion – CPD Y Felinheli
1. Oct 2022. 14:30

3 : 4

TIMELINE | LINEUP | INFO | H2H

| No. | CPD Cerrigydrudion | CPD Y Felinheli | No. |
|---|---|---|---|
| 1 | JONES N. G | HUGHES G. G | 1 |
| 2 | ROBERTS I. | JAPHETH C. | 2 |
| 3 | HUGHES S. A | CAIN R. | 3 |
| 4 | ROBERTS Y. | GRIFFITH A. C | 4 |
| 5 | WILLIAMS T. C A | HUGHES A. A | 5 |
| 6 | GRIFFITHS T. | JONES D. | 6 |
| 7 | JONES H. | JONES L. | 7 |
| 8 | EDWARDS J. | DAVIES T. | 8 |
| 9 | AYKROYD C. | OWEN I. | 9 |
| 10 | JONES T. A | CAIN J. | 10 |
| 11 | THOMAS L. | PRITCHARD O. A | 11 |

Substitutions

| No. | CPD Cerrigydrudion | CPD Y Felinheli | No. |
|---|---|---|---|
| 12 | JONES O. | WILLIAMS S. | 12 |
| 14 | EDWARDS R. | HUGHES A. | 13 |
| 15 | EVANS R. | EMYR A. A | 14 |
| 17 | JONES D. | JONES I. | 15 |
| | | OWEN D. | 16 |

Team officials

| CPD Cerrigydrudion | CPD Y Felinheli |
|---|---|
| GWYN E. Team Manager | JONES M. Coach |
| | JONES M. First Aider |
| | DAVIES E. Team Manager |

BDS GWYNEDD

ROBERTS
OF PORT DINORWIC
EST 1924

SIONED MAI
cyfieithu

01492 641 861
CONWY VALLEY MEATS
MEAT WHOLESALERS

# CPD MERCHED Y FELINHELI

# Y FELINHELI 1-5 WRECSAM

**09.10.22 - Welsh Cup, Cae Seilo**

**Gadawodd merched Y Felinheli Gwpan Cymru ar y clwyd cyntaf ar ôl colli 5-1 gartref i Wrecsam, er nad oedd y sgôr yn adlewyrchu perfformiad Y Felinheli.**

Cafodd Felin ergyd gynnar gyda'r blaenwr deinamig Alishia Donohue yn cael anaf wrth gynhesu i fyny a daeth Katie Midwinter i mewn i ganol cae yn ei lle.

Talodd Felin y pris am gymryd amser i setlo i mewn i'r gêm a chanfod eu hunain ar ei hôl hi wedi dim ond 4 munud, arbediad da gan Catrin Beech allai ond canfod traed Amber Lighfoot yn dilyn i mewn i'w gwneud hi'n 1-0. Cafodd Katie Midwinter ei gorfodi i ffwrdd ar 15 munud gyda thro cas ar ei ffêr a orfododd newid siap gan y rheolwr, daeth Iona Sloan-Lewis ymlaen i wneud ei hail ymddangosiad yn 16 oed yn unig. Gyda'r newid siap gwthiodd Gwenno Gibbard Bolton allan o 3 yn y cefn i ganol cae a gwthiodd Iona i mewn i'r 3 blaen. Roedd Felin dal i gymryd amser i setlo lawr i rythm da yn creu ychydig o hanner cyfleoedd ond eto cawsant eu cosbi am ganiatáu Wrecsam llawer ormod o le a chael eu hunain 2-0 i lawr ar ôl i Rebecca Pritchard ganfod cefn y rhwyd wedi 35 munud. Fe setlodd Y Felinheli i'r gêm o'r diwedd a dechrau creu cyfleoedd gyda Jordan Roberts yn dod agosaf gan daro'r bar o gic rydd o 30 llath. Aethon ni i mewn ar hanner amser 2-0 lawr ond gyda rhai arwyddion calonogol.

Wrth i'r ail hanner ddechrau, bu raid i'r Felinheli dalu eto am ganiatáu amser a lle i Wrecsam ar y bêl wrth iddynt ei gwneud hi'n 3-0 gyda dim ond 5 munud wedi'i chwarae o'r ail hanner gyda Sophie Hodson sgôrio. Roedd Felin yn dda iawn mewn ysbeidiau bach ond ni allent gynnal unrhyw fomentwm nac unrhyw bwysau sylweddol ond roeddent yn ymddangos yn llawer mwy cyfforddus yn eu siap o 4-3-3. Daeth Ellie Williams i gymryd lle Jordanne Greenough ar 55 munud, eto dim ond 16 oed. Daeth siawns i Fflur Williams,


Alaw Prys a Jordan Roberts ond doedd hi ddim i fod yn ddiwrnod i ni wrth i'r holl siawns fynd yn gardota. Yn y 70fed munud, tra roedd Y Felinheli ar y brig cafodd Llio Henshaw ein seren yn y cefn anaf i'w throed ac estynnwyd i ffwrdd a'i gludo i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, cafwyd 3 eilydd ei wneud bryd hyn gyda Nel Huws yn dod i mewn ar yr asgell chwith, Elain Owen a Erin Gibbard yn dod i mewn ac yn slotio i mewn i'r 4 cefn, eto dim ond 16 oed yw Elain ac Erin.

O hynny ymlaen dechreuodd Y Felinheli chwarae pêl-droed da gan roi Wrecsam dan bwysau ond ar 75 munud fe gafodd Wrecsam gôl arall gan ychydig o amddiffyn blêr a Rosie Hughes yn penio adref o 6 llath allan. Daliodd Felin i wthio a dal i gredu y gallen nhw gael rhywbeth o'r gêm ac ar ôl 80 munud sgoriodd Yasmin Williams gôl hyfryd o 30 llath gan ei slotio i'r gornel dde isaf. Daeth siawns eto i Alaw, Gwenno a Nel ond eto nid oedd Felin yn ddigon clinigol ac yn methu manteisio ar yr holl bwysau da a roddwyd Wrecsam o dân ac unwaith eto fe'u gorfodwyd i dalu amdani gydag Ava Suckley yn sgorio pumed i Wrecsam. Siomedig iawn i'r Felinheli ond roedd rhai pethau cadarnhaol i'w cymryd o'r golled, rydym yn creu cyfleoedd, ymladdom hyd y diwedd a gorffennom y gêm gyda dim llai na 4 un ar bymtheg oed ar y cae a'r 4 yn dal eu hunain yn erbyn yn wrthwynebydd caled.

Hoffem ddiolch i bawb am ddod i'n cefnogi heddiw- gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr.

Adroddiad gan Aaron Jones-Evans

# TIMAU / LINEUPS






# CPDM Y FELINHELI YN DECHRAU TÎM DAN 11

Mae CPDM Y Felinheli wedi dechrau tîm dan 11 yn ddiweddar y tymor hwn, a hyd yn hyn, er ei bod yn ddyddiau cynnar mae'n profi i fod yn gam llwyddiannus i adeiladu'r clwb. Bydd dau o'n chwaraewyr hŷn, Katie Midwinter ynghyd â'r hyfforddwr Jody Cain yn cymryd yr awenau a rheoli'r grŵp, gyda chefnogaeth y clwb cyfan gobeithiwn y bydd hyn yn llwyddiannus am nifer o flynyddoedd ac yn helpu i adeiladu timau o bob oedran o fewn y gêm merched.

Gyda niferoedd yn cynyddu'n wythnosol a noddwr yn dod i gyflenwi offer hyfforddi a chitiau mae'n edrych yn ddisglair iawn ar gyfer y dyfodol. Mae cwmni cyfreithwyr lleol, Carter vincent wedi noddi'r topiau hyfforddi ac mae'r citiau chwarae yn cael eu noddi gan Recordiau Cosh Yws Gwynedd.

Rydym yn hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a gawsom wrth sefydlu'r tîm merched ac mae'n galonogol iawn bod busnesau cariadus yn barod iawn i gefnogi gêm merched a'n helpu i adeiladu un o'r chwaraeon sy'n tyfu gyflymaf hyd yma, chwaraeon merched!

Bydd y tîm dan 11 yn cystadlu yng nghystadlaethau'r 'Round Robins' sy'n cael eu cynnal bob pythefnos mewn gwahanol diroedd o amgylch Gogledd Cymru, bydd Cae Seilo yn cynnal digwyddiad 'Round Robins' naill ai ddydd Sadwrn y 29ain neu ddydd Sul y 30ain o Hydref a byddai'n help enfawr i'r clwb pe gallech ddod allan i gefnogi ein genethod.

Am unrhyw wybodaeth am hyfforddiant neu hyd yn oed cymryd rhan o fewn y clwb cysylltwch trwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, instagram neu facebook, CPD Merched Y Felinheli. Ein 'moto' o fewn y clwb yw #teulufelin felly mae croeso mawr i unrhyw help neu gefnogaeth gan unrhyw un gan ein bod eisiau adeiladu'r clwb yma nid fel clwb pêl droed ond fel teulu o fewn y gymuned.

Gobeithiwn eich gweld yng Nghae Seilo yn y dyfodol agos!

Byw Bywyd
Living Life
EICH GOFAL YN FLAENLLAW
WHERE MOBILITY MATTERS

WATKIN JONES

Y GARDDFÔN
FELINHELI

MODURDY
FELINHELI
GARAGE LTD
07748307556



# HANES Y CLWB

Er mai dim ond ers 1977 y mae'r clwb presennol wedi' ffurfio, mae nifer o dimau wedi bodoli yn y pentref yn y gorffennol. Mae tystiolaeth o dîm yn y pentref yn y 1890au yn ogystal ag amryw o dimau yn y 1920au a 30au.

Mae 'na gofnod o Port Dinorwic yn ennill Cwpan Alves Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1945/46. Roedd y timau yma i gyd yn chwarae eu gemau cartref ar gae yn Stad y Faenol.

Cyn y clwb presennol, roedd tim yn y 1960au a chwaraeodd yng Nghyngrair Caernarfon a'r Cylch am ddau dymor. Roedd y clwb yma'n chwarae ar yr un cae a'r clwb presennol.

Ffurfiwyd y clwb presennol ar y 3ydd o Orffennaf, 1977 fel Portdinorwic Football Club, gan ymuno a Chynghrair Caernarfon a'r Cylch. Blwyddyn yn ddiweddarach, newidiwyd enw'r clwb i Clwb Pel Droed Y Felinheli (sef yr enw sy'n cael ei ddefnyddio heddiw).

Ennillodd y clwb Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1981/82 a 1982/83, ac yn 1983/84 ymunodd y clwb a'r cynghrair newydd, Cynghrair Gwynedd. Felin oedd ennillwyr cyntaf y gynghrair yma ac yn sgil hyn, cafwyd dyrchafiad i Gynghrair Undebol y Gogledd (The North Wales Coast League). Yn 1987/88, ennillodd y clwb eu tlws mwyaf sef y 'North Wales Coast Challenge Cup', a roedd y clwb yn ail yn yr un cystadleuaeth yn 1988/89 a 1989/90.

Yn 1991/92 cyrhaeddodd y clwb eu safle uchaf erioed, sef ail yng Nghynhrair Undebol y Gogledd. Yn ogystal a hyn,

gwelwyd y dorf mwyaf erioed yn Cae Seilo pan ddaeth tua 600 o bobl i weld gem olaf y tymor yn erbyn Llangefni Town i benderfynnu tynged y gynghrair. Ennillodd y clwb Cwpan Alves y Cynghrair Undebol yn yr un tymor gan guro Nantlle Vale.

Yn 1994/95, disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd, ble treuliwyd y 6 tymor nesaf. Yn ystod y cyfnod yma, roedd llwyddiant i'r clwb yn Cwpan Barrit, ac yn 2001, ennillodd y clwb Gynghrair Gwynedd a cael dyrchafiad yn ol i Gynghrair Undebol y Gogledd. Yn y tymor cyntaf yn ol, gorffennodd y clwb yn hanner uchaf y tabl, ond nid oedd y tymor canlynol mor llwyddianus a disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd. Roedd disgyniad arall y tymor canlynol yn ol i Gynghrair Caernarfon a'r Cylch.

Dros y blynyddoedd nesaf, roedd y clwb yn ail yn y tabl ar nifer o achlysuron, a ennillodd y clwb y NWCFA Junior Cup yn 2013 a 2014.

Yn 2013/14, cyflawnodd y clwb y trebl gan ennill y gynghriar, y Junior Cup a Cwpan Llun Mewn Ffram gan sicrhau dyrchafiad yn ol i Gynghrair Gwynedd.

Ar ol cyfnod byr o ddwy flynedd yng Nghynhrair Gwynedd, dyrchafwyd y clwb yn ol i system cynghreiriau yr FAW ar ol cyflawni'r dwbl gan ennill Cynghrair Gwynedd a Cwpan Gwynedd yn nhymor 2014/15.

Chwaraeodd Felin yn Ail Adran y "Welsh Alliance gan orffen ganol y tabl yn y dair tymor cyntaf, cyn llwyddo i ennill y gynghrair yn nhymor 2019/20. Mis Mawrth 2020 daeth Covid i amharu ar bawb a phopeth, a bu rhaid dod a'r peldroed i ben, gyda Felin ar frig y tabl ac yn ennill y gynghrair oherwydd canran uchaf o bwyntiau ennillwyd y gem (pts/gêm).

Dyrchafiad wedyn i gynghrair newydd "Ardal Gogledd Orllewin", a bu hen wario a gweithio yn galed er mwyn cael y cae yn Seilo i fyny i'r safonnau angenrheidiol. Ond och, ni fu chwarae peldroed o gwbwl yn 2020/21 oherwydd Covid.

O'r diwedd cychwynodd y gynghrair newydd yn nhymor 2021/22, a llwyddodd Felin i ymdopi gyda'r safon uwch o beldroed, gan orffen yn 11ed eithaf cyffyrddus yn y diwedd.





# CLUB HISTORY

Although the current club was only formed in 1977, there have been many teams in the village in the past. There is evidence of a team in the village in the 1890s and various teams during the 1920s and 30s.

There's a record of Port Dinorwic winning the Caernarfon & District League Alves Cup in 1945/46. All of the above teams played their home games on a field within the Faenol Estate.

Before the current club there was a team in the 1960's that played in the Caernarfon & District League for two seasons, this club played on the same ground that the current club plays on.

The current club was formed on the 3rd of July 1977 as Portdinorwic Football Club and entered the Caernarfon And District League. A year later the name was changed to Clwb Pel Droed Y Felinheli (which is the name that is currently used).

The club won the Caernarfon And District League in 1981/82 and 1982/83, and in 1983/84 they entered the newly formed Gwynedd League, of which they were the inaugural champions and got promoted to the Welsh Alliance League (The North Wales Coast League). In 1987/88 the club won their highest honors the North Wales Coast Challenge Cup, the club were finalist in the same competition in 1988/89 and 1989/90.

In 1991/92 the club gained their highest league position of 2nd in the Welsh Alliance League, they also had their

highest attendance of all time when approximately 600 people turned up at Cae Seilo to watch the end of season title decider against Llangefni Town. Also that season, the club were the Welsh League Alves Cup Winners against Nantlle Vale.

In 1994/95 the club were relegated back to the Gwynedd League, where the club spent the next 6 seasons. During this period the club gained success in the Barritt Cup, in 2001 the club won the Gwynedd League, gaining promotion back to the Welsh Alliance League. After a relatively successful 1st season back with a top half finish, the 2nd season was not as impressive finishing at the foot of the table being relegated to the Gwynedd League. With a further relegation the next season to the Caernarfon District League.

Over the next few years the club were runners up a few times along with back to back NWCFA Junior Cup titles in 2013 and 2014.

In 2013/14 the club achieved the coveted League, Junior Cup and Llun Mewn Ffram treble achieving a promotion back to the Gwynedd League.

After a short two season spell in the Gwynedd League the club gained promotion back into the FAW's directly affiliated league system after winning the Gwynedd League and Cup double in the 2014/15 season.

CPD Felinheli played in the Welsh Alliance Division 2, finishing mid-table in the first three seasons, before being crowned champions in 2019/20, in a season disrupted by the Covid pandemic. No more games could be played after late March, and the league (as with all other leagues) was decided by "points per game".

Felin were promoted to the new "Ardal North West" league, but not before having to go to considerable effort and expense to bring the Seilo field up to the required standards. But no football was played in the 2020/21 season because of the pandemic.

"Ardal NW" eventually kicked off in 2021/22, and Felin coped well with the step up in standard and managed to finish 11th in the inaugural season.



PATRICK'S
IRISH BAR

G. ROBERTS
SAER COED / JOINERY

- Civil Engineering & Groundworks - Peirianeg Sifil a Gwaith Tir
- Drain Cleaning & Jetting - Glanhau a jetio draeniau
- Environmental Services - Gwasanaethau amgylcheddol

07876220571 - info@cromwell-services.co.uk

Cromwell Services

CHAS
Accredited Contractor
CHAS.co.uk

RONDO

sgorio

tegfan
Llanrug

Green Wood
Gelli Gyffwrdd

# BATHODYNAU £3
# BADGES £3




Mae bathodynnau newydd wedi eu creu i nodi ennill y gynghrair yn nhymor 2019-20. Mae un bathodyn yn costio £3 (postio yn ychwanegol os fydd angen). Cysylltwch a'r clwb drwy ebost: **post@cpd-y-felinheli.cymru**, cyfryngau cymdeithasol, neu'r rhif ffon **07917572305**.

New badges have been created to mark the 2019-20 league winning season. One badge costs £3 (plus postage). Contact the club by email: **post@cpd-y-felinheli.cymru**, social media, or phone **07917572305**.

# ARDAL NORTH WEST

## Tabl y Gynghrair / League Table

Wedi diweddaru 20.10.22 / Updated 20.10.22

| # | Team | Pl | HW | HD | HL | AW | AD | AL | W | D | L | F | A | Diff | Pts |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nantlle Vale | 8 | 4 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 6 | 0 | 2 | 19 | 12 | 7 | **18** |
| 2. | Bangor 1876 | 7 | 3 | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 5 | 2 | 0 | 28 | 8 | 20 | **17** |
| 3. | Llay Welfare | 7 | 4 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 5 | 1 | 1 | 18 | 8 | 10 | **16** |
| 4. | Rhyl 1879 | 5 | 3 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 17 | 5 | 12 | **15** |
| 5. | Brickfield Rangers | 9 | 1 | 1 | 1 | 3 | 0 | 3 | 4 | 1 | 4 | 15 | 21 | -6 | **13** |
| 6. | Denbigh Town | 5 | 3 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 4 | 0 | 1 | 13 | 5 | 8 | **12** |
| 7. | Saltney Town | 9 | 3 | 0 | 3 | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 | 4 | 18 | 17 | 1 | **11** |
| 8. | Bodedern Ath | 9 | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 | 4 | 3 | 1 | 5 | 12 | 20 | -8 | **10** |
| 9. | Flint Mountain | 6 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 3 | 3 | 0 | 3 | 8 | 12 | -4 | **9** |
| 10. | Llanrwst Utd | 6 | 0 | 1 | 2 | 2 | 0 | 1 | 2 | 1 | 3 | 7 | 9 | -2 | **7** |
| 11. | Hawarden Rangers | 7 | 1 | 1 | 3 | 1 | 0 | 1 | 2 | 1 | 4 | 14 | 17 | -3 | **7** |
| 12. | Llandudno Albion | 6 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 3 | 2 | 0 | 4 | 14 | 16 | -2 | **6** |
| 13. | Y Felinheli | 7 | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 3 | 2 | 0 | 5 | 10 | 22 | -12 | **6** |
| 14. | Llangefni Town | 6 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 5 | 8 | 17 | -9 | **3** |
| 15. | Rhostyllen | 9 | 0 | 2 | 2 | 0 | 1 | 4 | 0 | 3 | 6 | 18 | 30 | -12 | **3** |

# TYMOR 2022-23 SEASON

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 23.07.22 | 14:00 | Llanystumdwy | **1-4** | **Y Felinheli** | Welsh Cup |
| 06.08.22 | 14:30 | Hawarden Rangers | **2-3** | **Y Felinheli** | League |
| 10.08.22 | 18.30 | **Y Felinheli** | **1-2** | Nantlle Vale | League |
| 13.08.22 | 14.30 | **Y Felinheli** | **1-4** | Brickfield Rangers | League |
| 16.08.22 | 19.45 | Bangor 1876 | **5-0** | **Y Felinheli** | League |
| 20.08.22 | 14.00 | **Y Felinheli** | **4-0** | Aberffraw | Welsh Cup |
| 27.08.22 | 14.30 | Rhyl 1879 | **4-0** | **Y Felinheli** | League |
| 03.09.22 | 14.00 | Llandudno Junction | **1-2** | **Y Felinheli** | FAW Trophy |
| 17.09.22 | 14.30 | **Y Felinheli (4-2 pens)** | **1-1** | Y Glannau | Welsh Cup |
| 24.09.22 | 14.30 | **Y Felinheli** | **3-2** | Llandudno Albion | League |
| 01.10.22 | 14.30 | **Y Felinheli** | **4-3** | Cerrigydrudion | FAW Trophy |
| 08.10.22 | 14.30 | **Y Felinheli** | **1-4** | Conwy Borough | Welsh Cup |
| 15.10.22 | 14.30 | Flint Mountain | **3-2** | **Y Felinheli** | League |
| 22.10.22 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Llanrwst United | League |
| 29.10.22 | 14.00 | Llay Welfare | v | **Y Felinheli** | FAW Trophy |
| 05.11.22 | 13.45 | **Y Felinheli** | v | Rhostyllen | League Cup |
| 12.11.22 | 14.00 | Llay Welfare | v | **Y Felinheli** | League |
| 19.11.22 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Bodedern | League |
| 26.11.22 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Rhydymwyn | League |
| 10.12.22 | 14.30 | Llandudno Albion | v | **Y Felinheli** | League |
| 17.12.22 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Hawarden Rangers | League |
| 26.12.22 | 14.00 | Nantlle Vale | v | **Y Felinheli** | League |
| 31.12.22 | 14.00 | Brickfield Rangers | v | **Y Felinheli** | League |
| 07.01.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Bangor 1876 | League |
| 14.01.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Rhyl 1879 | League |
| 21.01.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Denbigh Town | League |
| 28.01.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Llangefni Town | League |
| 04.02.23 | 14.00 | Saltney Town | v | **Y Felinheli** | League |
| 11.02.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Flint Mountain | League |
| 18.02.23 | 14.00 | Llanrwst United | v | **Y Felinheli** | League |
| 25.02.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Rhostyllen | League |
| 04.03.23 | 14.00 | **Y Felinheli** | v | Llay Welfare | League |
| 11.03.23 | 14.00 | Bodedern Athletic | v | **Y Felinheli** | League |
| 18.03.23 | 14.30 | Rhydymwyn | v | **Y Felinheli** | League |
| 25.03.23 | 14.30 | **Y Felinheli** | v | Llandudno Albion | League |




# Charisma Trophies Ltd

Est. 1985

Expert Advice and extensive stocks of

Cups, Shields, Trophies, Medals, Gifts, Bowls and Bowling Accessories. Guaranteed quality at unbeatable prices All engraving carried out on the premises. They provide trophies for a wide range of sports and corporate events.

**14 Yorke Street. Wrexham LL13 8LW**

**Tel: 01978 363262**

**SUPPLIER OF ALL**

**ARDAL NORTHERN TROPHIES**

LOCK STOCK SELF STORAGE

ARDAL NORTHERN

# Discount for all players and officials on our self storage




# 25% OFF

LOCK STOCK SELF STORAGE

STORAGE FIRST 3 MONTHS




www.lockstock.biz
0808 100 1292

Terms & conditions apply:
See website for more details.
Applies to the first 3 months of storage only.
On presentation of Ardal League players and officials ID.
Not to be used in conjunction with any other offer.
Valid until 31st July 2023.






LOCK STOCK SELF STORAGE ARDAL NORTHERN

**0808 100 1292**

LOCK STOCK SELF STORAGE ARDAL NORTHERN

# CLWB 100

| | | |
|---|---|---|
| 1. EURON | 35. GWION EMYR | 68. LLIWEN |
| 2. IS BONC | 36. MOIRA B | 69. DION SHAIT |
| 3. LENNY | 37. DELYTH | 70. CONNOR J |
| 4. POB | 38. SIONED FIDDLER | 71. BORIS |
| 5. EIFION | 39. IW EDS | 72. ALED EM |
| 6. ANDREA | 40. HYWEL | 73. |
| 7. CARWYN DAF | 41. DYLAN JONES | 74. AL HUWS |
| 8. DAN | 42. IEU ROBERTS | 75. IOLO JONES |
| 9. GWEN J | 43. SIAN GWENLLIAN | 76 |
| 10. MERED | 44. | 77. HIMYRS |
| 11. DEI O | 45. DAFYDD PIN | 78. IFAN DAFYFDD |
| 12. SARA IW | 46. GWYNDAF ROWLANDS | 79. SGILL |
| 13. GWIL J | 47. DAFYDD JONES (IDD) | 80. GWENNO Bethel |
| 14. STEFF PARRY | 48. AMIE SGILL | 81. AL HEF |
| 15. SIONED JONES | 49. GUTO KEEPER | 82. SGOD |
| 16. MART | 50. ARCHIE | 83. DEI O |
| 17. ARWEL WILLIAMS | 51. DEI O | 84. |
| 18. RICH HUM | 52. DANIEL WILLIAMS | 85. CHRISTINE POB |
| 19. IW BONC | 53. SION BONC | 86.CASS |
| 20. TRYST | 54. ALWYN K | 87. BETH DAN |
| 21. TEGID | 55. HATTON | 88. MARI EM |
| 22. PHIL STEAD | 56. | 89. CERI POB |
| 23. RICHARD JONES | 57. | 90. |
| 24. NERYS J | 58. SION HUMPH | 91. BORIS |
| 25. ARWEL WILLIAMS | 59. STEFF P EVANS | 92. SIAN HUWS |
| 26. GARETH ROBERTS | 60. FIONA THOMAS | 93. NERYS BONC |
| 27.DAFYDD EVANS | 61. GRUFF JOHN | 94. |
| 28. DONNA WYN | 62. CARA CONNOR | 95. IFAN EMYR |
| 29. BARRY HUGHES | 63. WIL BACH | 96. ANNA JONES |
| 30. ELERI OWEN | 64. ELEN HUWS | 97. KRISTINA |
| 31. RHODS | 65. SARAH WILLIAMS | 98. WENDY ANDERSON |
| 32. DYL BONC | 66. DEIO GRUFF | 99. GARETH GRIFFITH |
| 33. ANDREW CACS | 67. | 100. GWAWR SHAIT |
| 34. MART | | |




FOOTBALL ASOCIATION OF WALES

# BECOME A REF

Swap the terraces for the pitch and enjoy football from the best seat in the house.

Go to becomearef.wales
to start your refereeing journey today.

LOCK STOCK
SELF STORAGE

ARDAL
NORTHERN


LLOFFT

CAFFI • BAR • BWYTY



## RHEOLWR: EURON DAVIES

Chris Brown
Jack Cain
Ryan Liam Cain
Carwyn Dafydd
Trystan Dafydd
Tomos Gwynedd Davies
Iwan Edwards
Rhys Edwards
Aled Emyr
Ifan Emyr
Aled Wyn Griffith
Dion Wyn Griffiths
Moi Llwyd Hallam
James Matthew Robert Hatton
Adam Hughes
Aled Llyr Hughes
Caio Rhys Hughes
Guto Dwylan Hughes
Matthew Hughes
Guto Rhys Huws
Connor Patrick Japheth
Gruff John
Dylan Michael Waters Jones
Ifan Dafydd Jones
Llion Wyn Jones
Rhodri Dafydd Jones
Gavin Lloyd-Jones
Dylan Meredydd Owen
Iwan Gwilym Owen
Rhys Sion Parry
Osian Pritchard
Owain Emyr Roberts
Ifan Parry Stead
Aled Williams
Steffan Cai Williams

## RHEOLWR: BARRY OWEN

Gwydion Owen
Owen Booth
Ryan Williams
Gruffudd ap Gwyndaf
Gruffudd Evans
Hedd Williams
Leighton Griffiths
Chris Beardmore
Chris Nicolson
Sam Roberts
Matt Mullender
Adam Noble
Sam Thomas
Math Thomas
Cynan Edwards
Cai James Evans
Tom Jones
Leon Doran
Sion Roberts
Ashley Seddon
Llion Morris
Sam Jones

Dyfarnwr / Referee: **Colin Andrew Dukes**
Dyfarnwr Cynorthwyol 1 / Assistant Referee 1: **Gwilym Tudor Evans**
Dyfarnwr Cynorthwyol 2 / Assistant Referee 2: **John Dewi Morris**